
# Gweithlen

## Trafod Dwyieithrwydd




Mae **pedair** uned yn yr arholiad TGAU newydd.

Teitl **Uned 2** ydy: **Cyfathrebu ag eraill**.

| | |
|---|---|
| Beth ydy cyfathrebu? → | Siarad â phobl<br>Gwrando ar bobl eraill yn siarad<br>+<br>Ymateb |

Byddwch yn: gweithio gyda phartner neu mewn grŵp o dri.
trafod sbardun fydd yn cynnwys:

- posteri
- tablau
- graffiau
- lluniau
- logos
- testunau byr

Bydd y sbardun yn edrych ***rhywbeth*** fel hyn:




**Meini Prawf Llwyddiant.**
**I ymateb i'r sbardun bydd rhaid i chi:**

- roi gwybodaeth trwy gyfeirio at y llun, y graff, y tabl, y testunau byr,
- y poster
- gwrando ar ac ymateb i aelodau eraill y grŵp (hynny yw: beth maen nhw'n ddweud am gynnwys y sbardun ac hefyd eu barn am y testun)
- cyfeirio at/ mynegi barn am gynnwys y sbardun a chynnig eich barn eich hun am y testun
- cytuno ac anghytuno gyda aelodau'r grŵp a gofyn eu barn

## Er enghraifft:

### (i) Ymateb i destun byr

Mae dysgu iaith yn anodd. Mae pawb yn deall Saesneg felly does dim angen dysgu Ffrangeg, Cymraeg, Sbaeneg etc, nag oes?

Dw i ddim yn cytuno o gwbl. Dydy dysgu iaith ddim yn anodd yn fy marn i. Dw i'n hoffi dysgu ieithoedd. Yn yr ysgol dw i'n dysgu Cymraeg, Ffrangeg ac Almaeneg. Dw i'n hoffi Ffrangeg ond fy hoff iaith ydy Cymraeg. Wrth gwrs, mae pawb, bron, yn gallu siarad Saesneg ond mae'n grêt clywed pobl yn siarad ieithoedd gwahanol. Dw i'n adnabod lot o bobl sy'n ddwyieithog ac oes, mae angen dysgu ieithoedd eraill, dw i'n meddwl.

Yma mae enghraifft o:
- ymateb i farn rhywun arall
- cyfeirio at gynnwys y sbardun
- mynegi barn am gynnwys y sbardun
- cynnig barn bersonol am y testun
- cytuno ac anghytuno

### (ii) Ymateb i lun

Mae Alex Jones yn enwog. Mae hi'n cyflwyno The One Show gyda Matt Baker.

Hefyd mae hi'n ddwyieithog. Mae hi'n siarad Cymraeg a Saesneg. Mae llawer iawn o bobl enwog **ym myd** chwaraeon, cerddoriaeth, drama a'r teledu yn gallu siarad Cymraeg. Mae hynny'n wych. Ydych chi'n gallu meddwl am **enghreifftiau**?

*in the world of* (ym myd)

*examples* (enghreifftiau)


Alex Jones

Yma mae enghraifft o:
- rhoi gwybodaeth trwy gyfeirio at y llun
- mynegi barn am gynnwys y sbardun
- cynnig gwybodaeth a barn bersonol am y testun
- gofyn barn

Faint o bobl sy'n ddwyieithog?

| | |
|---|---|
| Ffrainc | 82% |
| Catalonia | 12% |
| Cymru | 43% |
| Canada | 60% |
| Lloegr | 20% |
| Yr Almaen | 67% |
| Y Byd | 53% |

**Ydych chi'n gallu ymateb i'r ddau yma? Bydd yn ymarfer da.**

Mae llawer o fy ffrindiau yn mynd i ysgol Gymraeg felly dw i eisiau dysgu siarad Cymraeg yn rhugl fel nhw.

## Yn yr arholiad:

- Cewch hyd at 10 munud i baratoi'r dasg (mewn pâr neu mewn grŵp o 3)
- Cewch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/gyda'r grŵp
- Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen nodiadau i'r atho/athrawes sy'n cynnal y prawf

### Dwyieithrwydd

### Siarad dwy iaith.

DW I'N DYSGU CYMRAEG

URDD GOBAITH CYMRU



Keep Calm and Dysgu Cymraeg

Mae Josh yn siarad 6 iaith yn rhugl. Mae dysgu ieithoedd newydd yn gyffrous bob amser, yn fy marn i.

Dysgu iaith newydd? Pam?
Mae pobl sy'n ddwyieithog yn:

- fwy creadigol
- fwy llwyddiannus
- fwy hyderus
- ennill mwy o arian

Mae'n her ac yn hwyl

Rydyn ni'n siarad Cymraeg

iaw!








Enwogion eraill sy'n siarad Cymraeg?

Faint o bobl sy'n ddwyieithog?

| | |
|---|---|
| Ffrainc | 82% |
| Catalonia | 12% |
| Cymru | 43% |
| Canada | 60% |
| Lloegr | 20% |
| Yr Almaen | 67% |
| Y Byd | 53% |




Mae llawer o fy ffrindiau yn mynd i ysgol Gymraeg felly dw i eisiau dysgu siarad Cymraeg yn rhugl fel nhw.

Mae dysgu iaith yn anodd. Mae pawb yn deall Saesneg felly does dim angen dysgu Ffrangeg, Cymraeg, Sbaeneg etc, nag oes?

**DARLLENWCH sut mae grŵp o dri (Mari, Robin a Siobhan) yn trafod y sbardun gweledol:**

**Mari:** Siarad dwy iaith? Yn fy marn i mae'n syniad da iawn achos mae'n sgil arall ac yn help i gael swydd yn y dyfodol. Beth ydy dy farn di, Robin?

**Robin:** Cytuno'n llwyr. Hefyd mae'n dweud yma bod pobl sy'n ddwyieithog yn fwy creadigol. Dw i eisiau bod yn greadigol.

**Siobhan:** Wel, efallai ond dw i'n meddwl bod siarad dwy iaith yn bwysig i wneud ffrindiau newydd. Dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd ac hefyd mae'n dweud yma 'Dwy iaith, dwywaith y cyfle'.

**Mari:** Mae dysgu iaith newydd yn hwyl hefyd – ac yn her, wrth gwrs.

**Robin:** Ydy, mae'n her, ond dydy siarad dwy iaith ddim yn '*big deal*' yn fy marn i. Edrychwch ar y graff yma.

**Siobhan:** O, ie. Mae'r graff yn dangos bod dros 80% o bobl Ffrainc yn ddwyieithog a 60% o bobl Canada.

**Robin:** Mae dros 40% o bobl ddwyieithog yng Nghymru. Mae pobl fel Alex Jones a Tanni Grey-Thompson wedi dysgu siarad Cymraeg . Ydych chi'n gwybod am enwogion eraill sy'n siarad Cymraeg?

**Mari:** Ydw. Wyn Evans a Connie Fisher. Mae'n ffantastig bod bobl enwog yn dysgu siarad Cymraeg. Ond rwyt ti'n iawn, Robin, dydy siarad dwy iaith ddim yn '*big deal*'. Edrycha ar

hyn. Mae Josh yn siarad chwe iaith yn rhugl.

**Robin:** Waw! Dyna beth ydy her.

**Mari:** Mae'n dweud yn y bybl ar y dde fan hyn bod pawb yn deall Saesneg a does dim angen dysgu Cymraeg neu Ffrangeg neu Sbaeneg...!

**Robin:** Nonsens llwyr! Dw i'n anghytuno. Dylech chi siarad iaith eich gwlad neu iaith y wlad lle rydych chi'n byw. Wyt ti'n cytuno, Siobhan?

**Siobhan:** Ydw, ond dw i'n cytuno bod dysgu iaith newydd yn anodd. Fel ddwedodd Mari, mae'n her.

**Robin:** Mae'n anodd achos dw i ddim yn cael lot o siawns i siarad Cymraeg – dim ond yn yr ysgol, wrth gwrs.

**Mari:** Bydd rhaid i ni gael bathodyn fel hyn yn dweud 'Dw i'n dysgu siarad Cymraeg'. Bydd pobl yn barod i drio siarad Cymraeg gyda ni wedyn.

**Robin:** Syniad da dros ben. Beth am ysgrifennu ebost at Sgiliaith?

**Siobhan:** O'r gorau. Dw i'n hapus i ysgrifennu'r e bost. Bydd yn ymarfer da i mi. Pam wyt ti'n chwerthin, Mari?

**Mari:** Dw i'n chwerthin achos y poster. Doniol dros ben. Edrychwch, mae'r poster yn dweud 'Keep Calm and dysgu Cymraeg'.

**Siohan/Robin:** O, doniol iawn, wir! Ha, ha, ha

*Yr iaith sy ar y sbardun gweledol. Mae'n help mawr*

Trafodwch ymateb Mari, Robin a Siobhan yn erbyn y meini prawf llwyddiant yn y bocs glas isod.

Beth maen nhw'n wneud sy'n dda?

Beth fydd rhaid iddyn nhw wneud i wella'r gwaith?

**Cofiwch bydd rhaid i chi:**

- gyfeirio at y lluniau, y tabl, y testunau byr, y poster, y logos ...
- gwrando ar ac ymateb i farn eich partner/grŵp
- mynegi barn am gynnwys y sbardun a chynnig eich barn eich hun am y testun
- cytuno ac anghytuno gyda'ch partner/gyda'r grŵp a gofyn eu barn

Eich tro chi rwan.
Gweithiwch gyda phartner neu mewn grŵp o 3 i drafod y sbardun gweledol
*Dwyieithrwydd = Siarad dwy iaith.*

Defnyddiwch dabled, ffôn symudol neu recordydd digidol i wneud recordiad o'r pâr/grŵp o dri er mwyn asesu a gwerthuso'r gwaith yn erbyn y cynllun marcio
**www.cbac.co.uk**